

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Castle Surgery

Dyddiad y gweithgarwch: 11 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 15 Mehefin 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Castle Surgery, Castell-nedd, fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r feddygfa'n darparu gwasanaethau meddygon teulu i dros 10,500 o gleifion yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac fe'i cefnogir gan nifer o feddygon teulu, ymarferwyr nyrso, gweithwyr cymorth gofal iechyd, parafeddyg, a staff cymorth.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Darperir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol i sicrhau gweithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis a phartner meddyg teulu ar 11 Mawrth 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych chi'n sicrhau y gall cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a'r prosesau sy'n galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau.
- Sut ydych chi'n diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19? Beth yw map trywydd y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau o wasanaethau a ddarparwyd cyn COVID-19?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

- 
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaethau a phenderfyniadau priodol a sensitif yn cael eu gwneud am achosion o 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' (DNACPR)?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Yr asesiadau risg amgylcheddol mwyaf diweddar

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amrywiol a gynhaliwyd gan y feddygfa, a oedd yn cynnwys asesiad risg COVID-19 cyffredinol ar gyfer y safle. Dywedwyd wrthym fod asesiad risg pwrpasol ychwanegol wedi'i gwblhau ar gyfer gweithio oddi ar y safle, er enghraifft pan fydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ymweld â chartref gofal neu gartref claf ei hun.

Dywedwyd wrthym fod amgylchedd y feddygfa wedi cael ei asesu ar ddechrau pandemig COVID-19 i gynorthwyo a gwella mesurau rheoli heintiau. Dywedwyd wrthym fod nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd, gan gynnwys gosod sgriniau Perspex yn y dderbynfa a chael gwared ar ran o ddesg y dderbynfa er mwyn hwyluso mynediad i'r staff. Roedd y feddygfa'n gweithredu polisi drws dan glo, a darparwyd rhif ffôn symudol penodol ar gyfer cyswllt cleifion cyn yr apwyntiad ac wrth gyrraedd y safle.

Y tu allan i'r adeilad, roedd canopiâu wedi'u gosod i gynnig rhywfaint o amddiffyniad rhag tywydd garw tra oedd cleifion yn ciwio am apwyntiadau ac roedd blwch presgripsiwn pwrpasol wedi'i osod i alluogi cleifion i gyflwyno presgripsiynau heb fynd i mewn i'r adeilad. Roedd pob man, gan gynnwys yr ardal yn union y tu allan i adeilad y feddygfa, wedi'i farcio ar y ddau fetr a argymhellir i ganiatáu cadw pellter cymdeithasol yn ddigonol. Roedd yr ardaloedd y tu mewn i'r feddygfa wedi cael eu tacluso, gan waredu ar yr holl eitemau nad oeddent yn hanfodol, ac roedd y rhan fwyaf o gadeiriau yn y manau aros wedi cael eu symud. Mae 12 cadair yn y man a'r lle ac mae rhif ar bob un ohonynt. Ar system electronig y feddygfa, mae pob claf yn derbyn rhif cadair penodol ac, wrth iddo gyrraedd, byddai'r claf yn cael ei arwain i'w gadair, lle'r oedd yn aros i gael ei alw yn ei drefn. Roedd gwybod pa gadair a ddefnyddiwyd gan ba glaf yn lleihau'r tebygolrwydd o groes-halogi ac yn ei gwneud yn haws glanhau ar ôl i'r claf gael ei alw i'r ystafelloedd triniaeth priodol.

---

Mae'r feddygfa hefyd yn cynnwys fferyllfa. Er bod y fferyllfa hon yn annibynnol ar y practis, fe wnaeth fabwysiadu a glynu at yr holl newidiadau a weithredwyd gan y feddygfa, gan gynnwys lleihau nifer yr ymwelwyr. Cafodd mynedfa ar wahân ei hailgynllunio fel na fyddai cleifion y fferyllfa a chleifion y feddygfa yn cymysgu.

Dywedwyd wrthym fod y feddygfa wedi aros ar agor trwy gydol pandemig COVID-19. Roedd y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau a/neu gael cyngor meddygol drwy ffonio'r feddygfa a rhoi rheswm byr dros eu galwad, a byddent yn cael eu brysennu<sup>1</sup> wedyn gan feddyg teulu i ddechrau, gyda llu o opsiynau wedi hynny, megis y gallu i lanlwytho ffotograffau i gyfeiriad e-bost diogel. Cyn COVID-19, gellid gwneud apwyntiadau hefyd trwy ddefnyddio'r gwasanaeth 'Fy lechyd Ar-lein'<sup>2</sup> ac mae'r gwasanaeth hwn bellach wedi'i adfer. Mae meddygon teulu penodedig yn asesu'r holl geisiadau gan gleifion ac yn gwneud penderfyniad ar y driniaeth orau i'r claf, neu'n trefnu ymgynghoriad dros y ffôn neu apwyntiad wyneb yn wyneb gyda'r clinigydd mwyaf priodol.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cynnal asesiad risg COVID-19 unigol i asesu'r risgiau personol sydd ynghlwm wrth barhau i gyflawni eu rôl yn ystod y pandemig ac i dynnu sylw at unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'w harferion gwaith. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd angen addasu dyletswyddau tri aelod o staff, ar draws meysydd clerigol a chlinigol, a darparwyd ar gyfer yr anghenion hyn yn llawn.

Dywedwyd wrthym fod y feddygfa hefyd yn darparu gwasanaeth wedi'i deilwra i saith cartref gofal lleol ac mae ymweliadau wedi parhau trwy gydol y pandemig yn dilyn asesiadau risg pwrpasol. Byddai'r staff clinigol hefyd yn dilyn y gweithdrefnau yn y cartref gofal wrth fynd i mewn i'r lleoliad. Cwblheir adolygiadau cleifion rhwng 8am a 10am ar ddydd Llun. Mae hyn yn galluogi rheolwyr cartrefi gofal i dynnu sylw at unrhyw bryderon neu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r clinigydd am unrhyw beth a ddigwyddodd y tu allan i oriau. Mae'r cartrefi gofal wedi cael rhif ffôn symudol pwrpasol er mwyn iddynt osgoi llinell apwyntiadau cyffredinol y feddygfa, ac mae cyfeiriad e-bost hefyd lle gall staff cartrefi gofal roi manylion am unrhyw ofynion ychwanegol o ran ymweliadau, ymgynghoriadau neu geisiadau am bresgripsiynau i'r feddygfa.

Gwnaethom hefyd ofyn sut mae'r practis yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei bod yn siarad Cymraeg yn rhugl ac y gallai ddiwallu anghenion cleifion pe bai angen hynny. Mae'r cleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio eu dewis iaith ac mae staff y feddygfa yn ymwybodol y gallant gael mynediad at wasanaethau llinell iaith a chyfieithu a ddarperir gan y bwrdd iechyd os oes angen.

## **Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

---

<sup>1</sup> Yr asesiad rhagarweiniol o gleifion er mwyn penderfynu faint o frys sydd ar eu hangen am driniaeth a natur y driniaeth sydd ei hangen.

<sup>2</sup> Mae'r gwasanaeth 'Fy lechyd Ar-lein' yn eich galluogi i drefnu apwyntiadau meddyg teulu a gofyn am bresgripsiynau rheolaidd ar-lein gan ddefnyddio eich ffôn symudol, eich llechen neu'ch cyfrifiadur.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor llwyddiannus y mae'n rheoli'r risg o heintiad er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Canllawiau ar gyfer safonau hylendid
- Y polisi atal a rheoli heintiau
- Asesiad risg rheoli heintiau
- Amserlenni glanhau
- Cofnodion hyfforddiant staff

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth fod gan y feddygfa ddogfennau canllaw a pholisi ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn adlewyrchu'r modd y rheolir COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y tîm rheoli'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau a argymhellir i ganllawiau neu arferion, ac, o ganlyniad, caiff polisiau eu hadolygu yn unol â hyn. Mae'r tîm rheoli yn sicrhau bod yr holl staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau.

Gwelsom dystiolaeth o gydymffurfio â hyfforddiant atal a rheoli heintiau gorfodol. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff yn y feddygfa wedi derbyn hyfforddiant ar y ffordd gywir o ddefnyddio cyfarpar diogelu personol,<sup>3</sup> gan gynnwys gwisgo a diosg<sup>4</sup> a chael gwared ar gyfarpar yn ddiogel ar ôl ei ddefnyddio. Ar ddechrau'r pandemig, roedd yr holl staff yn gwisgo sgrys,<sup>5</sup> ac roedd y staff sy'n gweithio yn y gymuned yn cario bagiau glân a bagiau budr er mwyn storio a chael gwared ar gyfarpar diogelu personol yn gywir.

Dywedwyd wrthym fod y feddygfa wedi cael peth anhawster i gael gafaél ar stoc ddigonol o gyfarpar diogelu personol a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd ar ddechrau'r pandemig. Roedd lefelau'r stoc yn cael eu monitro gan reolwr y practis ac yn cael eu hadrodd i'r bwrdd iechyd yn rheolaidd, ond daeth yn fwyfwy anodd i gael gafaél ar eitemau fel menig a masgiau o'r maint cywir, felly cafodd y rhain eu cyrchu a'u prynu oddi wrth gyflenwyr meddygol annibynnol (cymeradwy) i sicrhau y cedwir at y polisiau a oedd ar waith ar y pryd.

Gwnaethom ofyn sut roedd cleifion yr amheuir bod ganddynt salwch heintus yn cael

---

<sup>3</sup> Mae cyfarpar diogelu personol yn cynnwys dillad amddiffynnol, menig, sbectol, masgiau neu wisgoedd neu offer eraill sydd wedi cael eu cynllunio i amddiffyn corff y gwisgwr rhag anaf neu haint.

<sup>4</sup> Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

<sup>5</sup> Dillad glanweithiol yw sgrys sy'n cael eu gwisgo gan feddygon, nyrsys, a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofal cleifion mewn ysbytai. Mae eu defnydd wedi'i ymestyn y tu allan i ysbytai, i amgylcheddau gwaith lle gall dillad ddod i gysylltiad â heintiau amrywiol.

---

mynediad diogel i'r feddygfa. Eglurodd y partner meddyg teulu fod staff y feddygfa wedi cael hyfforddiant ychwanegol i sgrinio cleifion sy'n dod i'r feddygfa, ac asesu'r risg a berir ganddynt, lle bo angen. Byddai cleifion yr amheuir bod COVID-19 arnynt yn cael eu hadolygu yn eu car os yn bosibl, ond lle nad oedd hyn yn bosibl, byddai asesiad yn cael ei gynnal mewn un o ddwy ystafell glinigol benodol a oedd wedi'u haddasu at ddibenion cleifion yr oedd angen ymgynghoriad wyneb yn wyneb arnynt. Cyn gynted ag y byddai wedi cael ei adolygu a/neu ei drin, byddai'r claf yn cael ei dywys allan o'r adeilad drwy'r un drws yr aeth i mewn drwyddo. Byddai'r ystafell glinigol wedyn yn cael ei glanhau'n drylwyr.

Gwelsom amserlenni glanhau'r feddygfa a chadarnhaodd rheolwr y practis mai cwmni allanol sy'n glanhau'r feddygfa bum diwrnod yr wythnos. Nid oedd y drefn lanhau wedi newid ryw lawer yn ystod y pandemig, ond roedd y cynhyrchion a ddefnyddiwyd wedi'u newid yn unol ag argymhellion. Er enghraifft, roedd y defnydd o fopiau cod lliwiau a ddefnyddiwyd ar gyfer dihalogi ardaloedd llawdriniaeth gwahanol wedi'i roi ar waith.

Dywedwyd wrthym, y tua wyth mis ar ôl dechrau'r pandemig, y byddai gwasanaeth Profi ac Orlhain y GIG<sup>6</sup> yn cysylltu â meddygon teulu sawl gwaith y dydd. Ar y cam hwn, roedd y gwaith o lanhau'r feddygfa wedi cynyddu'n sylweddol ac fe'i gwnaed gan yr holl staff, yn ogystal â'r glanhau trylwyr a ddarparwyd gan y cwmni allanol. Prynwyd peiriant creu anwedd<sup>7</sup> gan y feddygfa ar gyfer y gwaith o lanhau ar ddiwedd yr wythnos ac ar ôl i gleifion yr amheuir bod COVID-19 arnynt fod wedi gadael y safle.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill a sut mae'n rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Cynlluniau parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff

---

<sup>6</sup> Mae gwasanaeth Profi ac Orlhain y GIG yn wasanaeth sydd wedi'i gyflwyno i hysbysu unigolion eu bod wedi dod i gysylltiad ag achos o'r coronafeirws a gadarnhawyd. Unwaith y bydd rhywun wedi cael diagnosis o'r feirws, bydd yn rhaid iddo roi rhestr gynhwysfawr o'r bobl y mae wedi dod i gysylltiad â nhw a'r lleoedd y mae wedi bod o fewn y bythefnos ddiwethaf. Mae gwasanaeth Profi ac Orlhain y GIG yn helpu i reoli'r gyfradd atgenhedlu, lleihau lledaeniad yr haint ac achub bywydau.

<sup>7</sup> Mae peiriannau creu anwedd yn helpu i ryddhau cemegion i'r aer mewn niwl mân iawn (anwedd) sydd wedyn yn gorwedd ar bob arwyneb agored. Defnyddir peiriannau creu anwedd ar gyfer diheintio ac, yn 2020, ystyriwyd bod y defnydd o beiriannau creu anwedd yn ffordd gyflym ac effeithiol o ddiheintio ystafelloedd ac arwynebau i amddiffyn rhag lledaeniad COVID-19.

- 
- Aseidiadau risg a gynhaliwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch staff
  - Cofnodion cyfarfodydd staff o'r tri mis blaenorol

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd rheolwr y practis a'r partner meddyg teulu yn glir iawn ac yn wybodus am eu rolau ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau. Roedd yn amlwg drwy gydol y gwiriad ansawdd bod cynllunio a gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd effaith COVID-19. Gwelsom dystiolaeth fod gan y feddygfa gynllun parhad busnes a oedd wedi cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r cynllun yn sicrhau parhad darpariaeth gwasanaeth a gofal diogel i gleifion yn ystod y pandemig ac ymlaen i'r dyfodol.

Dywedwyd wrthym, ar ddechrau'r pandemig, fod nifer o wasanaethau wedi'u hatal, gan gynnwys adolygiadau wyneb yn wyneb ar gyfer diabetes ac adolygiadau clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint<sup>8</sup> ac asthma. Dilynwyd y canllawiau a roddwyd i leoliadau iechyd ar unwaith, a darparwyd cymorth ar gyfer salwch cronig o bell a darparwyd pecynnau achub clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint / asthma i'r cleifion perthnasol. Mae'r holl wasanaethau a ataliwyd bellach wedi'u hailsefydlu.

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi'u rheoli'n dda yn ystod y pandemig a bod rheolwr y practis a'r partner meddyg teulu yn canmol staff y feddygfa yn fawr a'r modd y maent wedi ymateb i anghenion y feddygfa, y cleifion a'r staff eraill.

Dywedwyd wrthym fod gan reolwr y practis berthynas dda ag arweinydd y clwstwr<sup>9</sup> a bod cyfarfodydd clwstwr yn cael eu cynnal yn fisol ac fe'u mynychir yn rheolaidd trwy Microsoft Teams.

Gwnaethom ymholi ymhellach pa drefniadau oedd ar waith i sicrhau bod penderfyniadau 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' (DNACPR) yn cael eu cynnal yn briodol ac mewn modd sensitif, a chawsom sicrwydd bod yr holl drafodaethau a phenderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail yr holl wybodaeth, bod y broses o'u gwneud yn un sensitif, a bod cymorth digonol yn cael ei roi i'r cleifion hynny ac unrhyw berthnasau a allai fod yn rhan o'r broses. Dywedwyd wrthym fod penderfyniadau 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' yn cael eu cofnodi ac yna'n cael eu hadolygu gan feddyg teulu arall o'r practis. At hynny, pan fydd cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty sy'n destun penderfyniad 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol', mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u dileu/adnewyddu fel y bo'n briodol.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

---

<sup>8</sup> Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint yw'r enw ar grŵp o gyflyrau'r ysgyfaint sy'n achosi anawsterau anadlu.

<sup>9</sup> Grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau'n lleol yw clwstwr. Caiff clystyrau eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol unigol GIG Cymru. Mae meddygon teulu yn y clystyrau yn chwarae rhan allweddol wrth gynorthwyo gwaith parhaus Rhwydwaith Ardal.



---

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi diweddarau polisiau yn sgil pandemig COVID-19, ond canfuom nad oedd dyddiad adolygu ar gyfer y polisiau.

Dylai rheolwr y practis sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad adolygu. Hefyd, dylai rheolwr y practis sicrhau bod system ar waith i ddangos bod yr holl staff wedi darllen a deall y polisiau a'r gweithdrefnau.

Cadarnhaodd rheolwr y practis y byddai unrhyw hyfforddiant gorfodol i staff, sydd i'w adnewyddu, yn cael ei drefnu'n brydlon.

Rhaid i reolwr y practis roi copi o'r cynllun hyfforddiant gorfodol diweddaredig i AGIC ac, o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd hwn, roi diweddiariad pellach i AGIC mewn perthynas â chyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol.

---

## Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei darparu i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Castle Surgery

Dyddiad y gweithgarwch: 11 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Dylai rheolwr y practis sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad adolygu. Hefyd, dylai rheolwr y practis sicrhau bod system ar waith i ddangos bod yr holl staff wedi darllen a deall y polisiau a'r gweithdrefnau.	Safon 3.5: Safonau lechyd a Gofal  Llywodraethu  Mae cadw cofnodion da yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod holl gofnodion cleifion yn cael eu cynnal yn unol	Adolygu'r holl bolisiau a roddwyd ar waith yn ystod COVID-19 ac, ar ôl eu hadolygu, sicrhau bod pob un yn cynnwys dyddiad adolygu er mwyn i ni ailymweld â nhw.  Gweithredu system electronig i ddangos bod yr holl weithwyr yn y practis wedi derbyn a darllen yr holl bolisiau. Sicrhau hefyd fod y cofnod hwn yn cael ei	Rheolwr y practis Dirprwy reolwr Rheolwr y swyddfa	Diwedd Mehefin 2022

		â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol.	storio'n ganolog ar yriant "G2" y practis fel bod pawb yn gallu ei gyrchu ar bob adeg.		
2	Rhaid i reolwr y practis roi copi o'r cynllun hyfforddiant gorfodol diweddaredig i AGIC ac, o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd hwn, roi diweddariad pellach i AGIC mewn perthynas â chyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol.	Safon 7.1: Safonau Iechyd a Gofal  Y gweithlu  Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr adeg gywir i ddiwallu'r angen.	Diweddarau matrices sgiliau a chynllun hyfforddi'r staff bob mis, gan sicrhau bod dyddiadau cwblhau ac adolygu hefyd ar gael ar gyfer hyfforddiant gorfodol ac ychwanegol. Sicrhau bod yr holl staff newydd yn cwblhau hyfforddiant gorfodol yn ystod yr wythnos sefydlu.	Rheolwr y practis Dirprwy reolwr Rheolwr y swyddfa	Ar unwaith

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Kim Wilson

Dyddiad: 1 Mehefin 2022